# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

Marquess Dental / Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Dyddiad yr arolygiad: 18 Gorffennaf 2017

Dyddiad cyhoeddi: 19 Hydref 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Y Rheolwr Cyfathrebu**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**

**Parc Busnes Rhyd-y-car**

**Merthyr Tudful**

**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn:** **0300 062 8163**

**E-bost:** **hiw@wales.gsi.gov.uk**

**Ffacs:** **0300 062 8387**
**Gwefan:** **www.agic.org.uk**



ISBN Digidol 978-1-78859-378-6



© Hawlfraint y Goron 2017

# Cynnwys


1. Yr hyn a wnaethom .......... 5
2. Crynodeb o'n harolygiad .......... 6
3. Yr hyn a ganfuom .......... 7
   - Ansawdd profiad y claf .......... 8
   - Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol .......... 13
   - Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth .......... 18
4. Beth nesaf? .......... 20
5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol .......... 21
   - Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad .......... 22
   - Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith .......... 23
   - Atodiad C – Cynllun gwella .......... 24

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru**

# Ein diben

**Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.**

# Ein gwerthoedd

- **Pwyslais ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud**
- **Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest**
- **Annibynnol: rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn**
- **Cydweithredol: rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol**
- **Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chyfrannol.**

# Ein blaenoriaethau

**Ein nod trwy ein gwaith yw:**

| | |
|---|---|
| **Darparu sicrwydd:** | **Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.** |
| **Hybu gwelliant:** | **Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.** |
| **Dylanwadu ar bolisi a safonau:** | **Defnyddio'r hyn a welwn i ddylanwadu ar bolisïau, safonau ac arferion.** |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Marquess Dental yn Ffordd Caergybi, Llanfairpwllgwyngyll, Ynys Môn, LL61 5TX o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 18 Gorffennaf 2017.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Archwiliodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Gellir gweld manylion pellach ynglŷn â'n dull o gynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, canfuom dystiolaeth fod Marquess Dental yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'w gleifion mewn amgylchedd dymunol gyda staff sy'n gyfeillgar, yn broffesiynol ac yn ymroddedig.

Cadarnhaodd yr adborth a gawsom fod cleifion yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth roeddent yn ei dderbyn.

Gwelsom fod arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir yn y practis.

Canfuom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Rhoddir digon o wybodaeth i gleifion wneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â'u triniaeth, a gwelsom dystiolaeth bod cleifion yn fodlon ar y driniaeth a'r gwasanaeth a dderbyniwyd
- Gwelsom dystiolaeth bod y gwasanaeth hwn yn cael ei reoli'n dda iawn, gyda systemau effeithiol i gefnogi rheolaeth ac arweinyddiaeth gyffredinol y practis
- Roedd y tîm staff i'w gweld yn hapus iawn yn eu swyddi, roeddent yn gymwys wrth gyflawni eu cyfrifoldebau, ac roedd ganddynt ymrwymiad cadarn i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel
- Roedd digon o gyfleusterau ar gael yn yr ystafelloedd triniaeth, ac roeddent i'w gweld yn lân ac yn daclus, ac wedi'u trefnu'n dda
- Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer defnyddio Pelydrau-X yn ddiogel

Gwnaethom argymell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylid sicrhau bod yr holl staff gofynnol yn diweddaru eu hyfforddiant mewn diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed
- Dylid sicrhau bod pob deintydd sy'n gweithio yn y practis yn gwbl ymwybodol o'r canllawiau Darparu Iechyd y Geg Gwell a chanllawiau Cymdeithas Periodontol Prydain
- Dylid cynnal archwiliad o gofnodion cleifion, yn unigol ac fel practis.

# 3. Yr hyn a ganfuom

## Cefndir y gwasanaeth

Marquess Dental provides services to patients in the Anglesey area. The practice forms part of dental services provided within the area served by Betsi Cadwaladr University Health Board.

Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys tri deintydd, dau hylenydd, pum nyrs ddeintyddol, derbynnydd, a rheolwr practis.

Mae'r practis yn darparu amrywiaeth o wasanaethau deintyddol y GIG a gwasanaethau preifat.

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Ar y cyfan, canfuom dystiolaeth fod Marquess Dental yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'w gleifion mewn amgylchedd dymunol gyda staff sy'n gyfeillgar, yn broffesiynol ac yn ymroddedig.

Cadarnhaodd yr adborth a gawsom fod cleifion yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth roeddent yn ei dderbyn.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn cael sylwadau ar y gwasanaethau deintyddol sy'n cael eu darparu.

Gwnaethom dderbyn cyfanswm o 21 o holiaduron wedi'u cwblhau. Cafodd y rhan fwyaf o'r holiaduron eu cwblhau gan gleifion a oedd wedi bod gyda'r practis ers dros ddwy flynedd.

Ar y cyfan, roedd adborth cleifion yn gadarnhaol iawn. Roedd rhai o'r sylwadau gan gleifion yn yr holiaduron yn cynnwys:

> *"Mae'n dda iawn yma, ac [maen nhw] yn ofalus iawn gyda'r cleifion".*
>
> *"Mae'n dîm gwych. O'r radd flaenaf"*
>
> "Nid oes gen i unrhyw gwynion. Rwyf bob amser yn cael fy nhrin mewn ffordd gyfeillgar ac effeithlon"

### Cadw'n iach

Dywedodd pob claf ond un a gwblhaodd holiadur wrthym fod y tîm deintyddol wedi siarad â nhw ynghylch sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

Roedd digonedd o wybodaeth hybu iechyd deintyddol neilltuedig ar gael, a oedd yn golygu bod gan gleifion fynediad at wybodaeth a allai eu cynorthwyo i ofalu am eu hylendid ceg eu hunain. Roedd amryw o bosteri a dalenni gwybodaeth yn cael eu harddangos a oedd yn rhoi amrywiaeth o wybodaeth i gleifion am y practis deintyddol ac am iechyd y geg. Roedd arwyddion "Dim

ysmygu" yn cael eu harddangos yn y practis.  Roedd rhestrau prisiau hefyd yn cael eu harddangos yn glir yn y man aros/derbynfa.

## Gofal ag urddas

Cadarnhaodd pob claf a gwblhaodd holiadur eu bod wedi cael eu trin â pharch wrth ymweld â'r practis a'u bod wedi cael croeso gan dîm y practis.

Gwelsom hefyd y dull cynnes, cyfeillgar a phroffesiynol roedd yr holl staff yn ei ddefnyddio wrth ymdrin â chleifion.

Roedd gan y practis drefniadau ar waith i amddiffyn preifatrwydd cleifion, gan gynnwys mannau i gleifion gynnal sgyrsiau preifat â staff. Roedd galwadau ffôn hefyd yn cael eu derbyn yn breifat i ffwrdd o gleifion.

Gwelsom fod y drysau i'r ystafelloedd triniaeth ddeintyddol (lle roedd cleifion yn derbyn gofal ar ddiwrnod ein harolygiad) wedi'u cadw ar gau i gynnal preifatrwydd ac urddas.

### Gwybodaeth i gleifion

Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur eu bod yn teimlo'n rhan o'r penderfyniadau a wneir ynghylch eu triniaeth i'r graddau yr oeddent yn dymuno, a'u bod wedi cael gwybodaeth glir am eu triniaeth ddeintyddol, gan gynnwys yr opsiynau a'r prisiau cysylltiedig a oedd ar gael iddynt o ran triniaeth. Er i'r rhan fwyaf o gleifion a gwblhaodd holiadur ddweud bod cost unrhyw driniaeth yn cael ei hesbonio iddynt cyn iddynt dderbyn unrhyw driniaeth, dywedodd dros un rhan o dair o gleifion wrthym nad oeddent yn deall sut roedd cost eu triniaeth yn cael ei chyfrifo.

Canfuom hefyd dystiolaeth o gynllunio triniaethau ac opsiynau'n cael eu nodi o fewn sampl o gofnodion cleifion y gwnaethom edrych arnynt. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus ynghylch eu triniaeth.

Roedd gwybodaeth gyffredinol am y practis ar gael ar ei wefan, ac roedd yn cael ei harddangos yn y dderbynfa a'r man aros. Roedd gan y practis ei lyfryn gwybodaeth ei hun i gleifion fynd adref gyda nhw.

Canfuom fod gwybodaeth am gleifion yn cael ei storio'n ddiogel i sicrhau bod gwybodaeth bersonol a sensitif yn cael ei hamddiffyn.

### Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd rhai o'r staff yn y practis yn gallu cyfathrebu â chleifion yn ddwyieithog. Roedd dwy ran o dair o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn ystyried eu hunain i fod yn siaradwyr Cymraeg. Roedd rhaniad yn y siaradwyr Cymraeg pan ofynnwyd iddynt pa mor aml roeddent yn gallu siarad â staff yn Gymraeg pan oeddent am wneud hynny; dywedodd rhai eu bod bob amser yn gallu siarad â staff yn Gymraeg ond dywedodd rhai mai dim ond weithiau roeddent yn gallu gwneud hynny.

Dywedodd yr holl gleifion nad oeddent yn gallu siarad Cymraeg a gwblhaodd holiadur wrthym fod modd iddynt siarad â staff yn eu hiaith o ddewis.

## Gofal amserol

Mae'r practis yn ceisio sicrhau bod gofal deintyddol yn cael ei ddarparu'n brydlon bob amser, a gwelsom hyn yn ystod ein harolygiad. Disgrifiodd staff y broses ar gyfer hysbysu cleifion am unrhyw oedi i amser eu hapwyntiad.

Dywedodd bron i un rhan o dair o gleifion a gwblhaodd holiadur nad oeddynt yn gwybod sut i gael mynediad at y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau os oedd problem ddeintyddol ar frys ganddynt. Roedd rhif ffôn brys ar gyfer gwasanaethau y tu allan i oriau ar gael pe byddai angen triniaeth frys y tu allan i oriau ar gleifion. Roedd y rhif ffôn yn cael ei arddangos ger y brif fynedfa ac fe'i rhoddir hefyd ar neges y peiriant ateb.

## Gofal unigol

### Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Gwnaethom ystyried sampl o gofnodion cleifion a chanfuom fod yr holl opsiynau triniaeth yn cael eu cofnodi a bod pob claf wedi rhoi cydsyniad i'w driniaeth.

Cadarnhaodd yr holl gleifion eu bod yn cael eu cynnwys i’r graddau yr oeddent yn dymuno mewn unrhyw benderfyniadau a wnaed am eu triniaeth unigol. Gwelsom dystiolaeth o gynllunio triniaethau ac opsiynau'n cael eu trafod gyda’r cleifion.

Roedd hanes meddygol cleifion yn cael ei adolygu a’i ddiweddaru yn ystod pob ymweliad. Cadarnhaodd pob claf a gwblhaodd holiadur fod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth.

## Hawliau pobl

Gwnaethom sylwi bod polisi cydraddoldeb penodol ar waith yn y practis. Roedd y practis mewn adeilad dau lawr, gyda dwy ystafell triniaeth deintyddol ac ystafell OPG (orthopantomogram) ar y llawr daear a dwy ystafell triniaeth ddeintyddol ar y llawr cyntaf. [1] Roedd defnyddwyr cadair olwyn yn gallu cael mynediad at lawr daear y practis ac roeddent yn gallu cael mynediad at y dderbynfa, man aros, cyfleusterau toiled, dwy ystafell driniaeth a'r ystafell OPG.

## Gwrando a dysgu o adborth

Dywedodd dros un rhan o dair o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym nad oeddent yn gwybod sut i leisio cwyn neu bryder ynghylch y gwasanaethau maent yn eu derbyn yn y practis deintyddol.

Gwelsom fod gan y practis bolisi ar waith ar gyfer ymdrin â chwynion am driniaeth breifat a thriniaeth y GIG a oedd yn cael ei arddangos yn glir yn y man aros.

Gwelsom fod gan y practis ffeil neilltuedig ar gyfer cwynion gyda gweithdrefnau clir i ymdrin â chwynion a phryderon ffurfiol ac anffurfiol.

Nid oedd pob claf a gwblhaodd holiadur yn gwybod a oedd y practis deintyddol yn gofyn am eu safbwyntiau ar y gwasanaeth a ddarperir, trwy holiaduron cleifion er enghraifft.

Gwnaethom drafod dulliau'r practis ar gyfer casglu adborth gan y cleifion; a gwneir hyn drwy roi holiaduron i gleifion yn ogystal â darparu blwch sylwadau / awgrymiadau yn y man aros. Dywedodd y practis wrthym y caiff yr adborth ei drafod mewn cyfarfodydd tîm. Gwnaethom gynghori'r practis i arddangos dadansoddiad o adborth cleifion, gan ddangos i gleifion bod eu hadborth unigol wedi cael ei gasglu ac y gweithredwyd arno er mwyn gwella dysgu a gwella'r gwasanaeth.

---

[1] Delwedd banoramig neu lydan o waelod y wyneb yw OPG, sy'n dangos holl ddannedd y gen uchaf ac isaf mewn un ddelwedd. Mae'n dangos nifer, safle a thwf yr holl ddannedd gan gynnwys y rhai nad ydynt wedi dod i'r amlwg neu wedi torri allan eto.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis gyhoeddi / arddangos dadansoddiad o adborth cleifion.

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Canfuom fod y practis yn cael ei reoli gyda'r bwriad o fodloni'r safonau perthnasol er mwyn sicrhau iechyd, diogelwch a llesiant y staff a'r cleifion.

Roedd y practis yn darparu amgylchedd glân ac roedd yr ystafelloedd triniaeth yn olau ac yn awyrog.

### Gofal diogel

#### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Ar y cyfan, canfuom fod trefniadau ar waith i amddiffyn diogelwch a llesiant staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld â'r practis.

Yn ôl pob golwg, roedd yr adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda iawn, y tu mewn a'r tu allan. Yn ystod taith o amgylch yr adeilad, gwelsom fod pob man yn lân ac yn daclus heb unrhyw beryglon amlwg.

Ni chodwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y practis deintyddol; roedd yr holl gleifion heblaw un a gwblhaodd holiadur yn teimlo, yn eu barn nhw, fod y practis deintyddol yn lân iawn.

Roedd un toiled deuryw at ddefnydd cleifion ar y llawr daear, ac un toiled ar gyfer staff ar y llawr cyntaf. Roedd arwyddion ar gyfer yr holl gyfleusterau ac roeddent i'w gweld yn lân iawn.

Gwnaethom sylwi fod profion dyfeisiau cludadwy wedi cael eu cynnal ar adegau rheolaidd i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Roedd diffoddwyr tân wedi'u gosod trwy'r adeilad ac roeddent yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd. Roedd arwyddion ar gyfer yr allanfeydd brys wedi'u harddangos yn glir, ac roedd poster iechyd a diogelwch wedi'i arddangos yn glir.

Canfuom fod yr holl gemegion yn cael eu cadw'n ddiogel ac nid oedd yr un yn cael ei adael mewn man cyhoeddus.

Roedd system ar waith yn y practis ar gyfer rheoli gwastraff yn briodol ac yn ddiogel. Roedd dogfennau contract ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus (clinigol) a gwastraff nad yw'n beryglus (domestig). Gwelsom hefyd fod yr holl wastraff wedi cael ei ddidoli i'r bagiau/cynwysyddion dynodedig yn unol â’r dull gwaredu cywir.

### Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis gyfleusterau neilltuedig ar gyfer glanhau a sterileiddio (dadheintio) offer deintyddol, yn unol ag argymhellion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Roedd y cyfleusterau'n lân iawn, gyda digon o offer ac yn rhydd rhag annibendod. Fodd bynnag, canfuom fod y drysau i'r ystafelloedd dadheintio'n cael eu gadael ar agor. Roedd arwydd 'gweithwyr yn unig' yn cael ei arddangos. Fodd bynnag, gan fod yr ystafelloedd hyn mewn man sy'n hygyrch i'r cyhoedd, gwnaethom gynghori'r practis i gadw'r drysau ar gau bob amser i atal mynediad heb awdurdod. Trefnodd y practis i'r drysau gael eu cau ar unwaith.

Gwnaethom sylwi hefyd fod yr offer deintyddol yn cael eu storio'n unol â pholisi dadheintio cyfredol y practis. Fodd bynnag, gwnaethom sylwi fod rhai offer deintyddol yn cynnwys tâp/band lliw. Gwnaethom sylwi hefyd fod yr offer yn cael eu cludo rhwng ystafelloedd triniaeth a'r ystafell ddadheintio mewn bagiau. Roedd ein pryderon ynghylch yr offer deintyddol a chludo offer deintyddol yn cael sylw dan ein proses sicrwydd ar unwaith ac fe'u darperir yn Atodiad A.

Gwelsom asesiad risg manwl ar gyfer legionella a oedd wedi cael ei gynnal gan gwmni allanol. Gwelsom dystiolaeth fod y practis wedi gweithredu yn dilyn yr asesiad ac mai'r unig gam gweithredu a oedd yn weddill oedd y dylai staff ymgymryd â hyfforddiant ymwybyddiaeth legionella.

Gwelsom fod y practis wedi cynnal archwiliad cynhwysfawr iawn o'i broses rheoli heintiau ac roedd yr holl gamau gweithredu a nodwyd wedi cael eu cwblhau. Fodd bynnag, nid oedd y practis wedi defnyddio'r dull a gefnogir gan Ddeoniaeth Cymru[2]. Rydym yn argymell y dylai'r practis ddefnyddio'r dull hwn ar gyfer archwiliadau yn y dyfodol a chytunodd y practis i wneud hynny. Mae'r dull archwilio'n cyd-fynd â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, sef y

---

[2] https://www.walesdeanery.org/cy

safon ar gyfer arferion dadheintio a rheoli heintiau mewn deintyddfeydd yng Nghymru.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylid sicrhau bod yr holl staff yn cael hyfforddiant legionella.

## Rheoli meddyginiaethau

Roedd gweithdrefnau ar waith yn y practis a oedd yn dangos sut i ymateb i argyfyngau meddygol cleifion. Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod y tîm wedi derbyn yr holl hyfforddiant perthnasol. Roedd y cyffuriau brys yn cael eu storio mewn lleoliad a oedd yn sicrhau eu bod ar gael ar unwaith pe bai argyfwng meddygol (claf yn cwympo) yn y practis. Gwelsom dystiolaeth fod system effeithiol ar waith i wirio'r cyffuriau brys i sicrhau eu bod yn parhau i fod o fewn eu dyddiad dod i ben a'u bod yn barod i'w defnyddio.

Roedd yr holl staff clinigol wedi cael hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd cyfredol ac roedd gan y practis isafswm o ddau swyddog cymorth cyntaf dynodedig.

## Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Canfuom fod gan y practis bolisi diogelu ar waith i amddiffyn plant ac oedolion sy’n agored i niwed. Gwelsom dystiolaeth fod yr holl staff clinigol wedi cwblhau hyfforddiant mewn amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Fodd bynnag, cawsom ein hysbysu gan y practis fod angen diweddaru hyfforddiant rhai aelodau o'r staff clinigol. Cawsom sicrwydd ar lafar fod trefniadau eisoes ar waith i'r aelodau hynny o staff ddiweddaru eu hyfforddiant. Gwnaethom argymell hefyd fod y derbynnydd yn derbyn hyfforddiant mewn amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed.

Gwnaethom gadarnhau bod yr holl staff perthnasol wedi’u cofrestru gyda’r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Cawsom ein hysbysu gan y practis fod angen adnewyddu gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer un o'r deintyddion ac y byddai trefniadau'n cael eu gwneud ar ei gyfer. Rhaid i bob deintydd sydd wedi cofrestru ag AGIC feddu ar wiriad dilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'i ddyddio o fewn y tair blynedd diwethaf. Nid oedd tystysgrif y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer un o'r deintyddion ar gael i ni ei gweld. Roedd gan yr holl staff perthnasol eraill dystysgrif ddilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylid sicrhau bod y staff gofynnol yn diweddaru eu hyfforddiant mewn amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed.

Dylid anfon manylion y dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd sydd wedi'i hadnewyddu ar gyfer un o'r deintyddion at AGIC.

Dylid anfon manylion y dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd sydd wedi'i hadnewyddu ar gyfer un o'r hylenyddion at AGIC.

### Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwnaethom edrych ar yr ystafelloedd triniaeth a chanfod eu bod yn cynnwys yr offer priodol ar gyfer diogelwch cleifion a'r tîm deintyddol. Gwnaethom sylwi bod yr ystafelloedd triniaeth wedi cael eu cynllunio a'u trefnu i helpu’r tîm i weithio'n effeithlon, ac roeddent yn amlwg yn lân iawn ac mewn cyflwr rhagorol.

Roedd yr holl offer radiolegol yn cael ei gynnal a’i gadw ac yn gweithio'n dda. Gwelsom dystiolaeth fod trefniadau addas ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffig (pelydr-X) yn ddiogel.

Gwelsom dystiolaeth o hyfforddiant cyfredol ar ymbelydredd ïoneiddio ar gyfer yr holl staff clinigol.

Gwelsom dystiolaeth fod y practis wedi cynnal archwiliadau sicrhau ansawdd blynyddol o ddelweddau pelydr-X.

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd yn amlwg bod y practis yn ceisio gwella’r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Roeddem yn gallu gweld bod archwiliadau perthnasol wedi cael eu cwblhau neu eu trefnu gan y practis.

### Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Fe’n hysbyswyd bod adolygiadau gan gymheiriaid rhwng staff clinigol yn cael eu cynnal yn rheolaidd a'u bod yn cyfrannu at ansawdd a diogelwch y gofal a ddarperir i gleifion.

Gwelsom dystiolaeth fod y practis wedi defnyddio dull y Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth. Mae hwn yn ddull o hunanwerthuso, sy'n galluogi'r tîm

deintyddol i ganolbwyntio ar sut mae'n gweithio ac sy'n galluogi'r practis i ystyried yr ansawdd a'r gofal a ddarperir mewn amrywiaeth o feysydd.

## Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd ffeiliau cleifion yn cael eu storio mewn modd priodol er mwyn sicrhau diogelwch data personol. Roedd copi wrth gefn o'r holl ffeiliau electronig yn cael ei wneud yn rheolaidd ac roedd mynediad at y sgriniau cyfrifiadur yn ddiogel ac yn breifat. Roedd polisi diogelu data ar waith.

## Cadw cofnodion

Adolygwyd sampl o gofnodion cleifion.

Yn gyffredinol, roedd tystiolaeth bod y practis cyfan yn cadw cofnodion clinigol boddhaol. Fodd bynnag, roedd yn dangos nad oedd pob deintydd a oedd yn gweithio yn y practis yn ymwybodol o'r canllawiau 'Darparu Iechyd y Geg Gwell[3] a chanllawiau Cymdeithas Periodontol Prydain[4] ar gyfer cleifion periodontol. Rydym yn argymell y dylai pob deintydd adolygu'r canllawiau er mwyn gwella eu gwybodaeth.

Gwnaethom sylwi hefyd nad oedd archwiliadau wedi cael eu cynnal o gofnodion cleifion yn y practis ac argymhellwn y dylid cwblhau archwiliad, yn unigol ac fel practis.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Dylid sicrhau bod pob deintydd sy'n gweithio yn y practis yn gwbl ymwybodol o'r canllawiau  Darparu Iechyd y Geg Gwell a chanllawiau Cymdeithas Periodontol Prydain.

Dylid cynnal archwiliad o gofnodion cleifion, yn unigol ac fel practis.

---

[3] http://www.designedtosmile.co.uk/DBOHv3SEP2014SummaryTables.pdf

[4] http://www.bsperio.org.uk/

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.*

Gwelsom fod gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir.

Roedd amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith.

Roedd y tîm staff i'w gweld yn hapus yn eu swyddi ac yn gymwys wrth gyflawni eu cyfrifoldebau.

### Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Canfuom fod gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir. Roedd y rhan fwyaf o'r staff wedi gweithio gyda'i gilydd ers blynyddoedd lawer ac roedd perthynas dda rhyngddynt. Dywedodd staff wrthym eu bod yn hyderus wrth godi unrhyw broblemau neu bryderon yn uniongyrchol gyda'r deintydd.

### Staff ac adnoddau

#### Gweithlu

Gwelsom ffolderi sefydlu staff wedi'u cwblhau ac roedd y rhain wedi'u trefnu'n dda. Roedd gan yr holl staff fynediad at bolisïau a gweithdrefnau.

Gwelsom hefyd fod gan yr holl staff fynediad at amrediad eang o hyfforddiant a bod hyn yn bodloni gofynion datblygiad proffesiynol parhaus. Gwelsom hefyd dystiolaeth o arfarniadau staff blynyddol a chyfarfodydd tîm rheolaidd. Mae'r tîm hefyd yn cyfarfod ar ddechrau pob dydd i drafod materion ac i sicrhau bod y diwrnod yn rhedeg yn effeithlon.

Roedd y tri deintydd a oedd yn gweithio yn y practis yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat, a gwelsom eu tystysgrifau cofrestriad AGIC yn cael eu harddangos mewn lle amlwg yn yr ystafelloedd triniaeth fel sy'n ofynnol gan

Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008. Fodd bynnag, roedd y dystysgrif ar gyfer y prif ddeintydd yn cynnwys y cyfeiriad anghywir ar gyfer AGIC. Gwnaethom gynghori'r practis i gysylltu â'r Tîm Cofrestru yn AGIC er mwyn iddynt gyhoeddi copi o'r dystysgrif. Gwelsom gofnodion yn ymwneud â statws imiwnedd Hepatitis B yr holl staff sy'n gweithio yn y practis.

Gwnaethom edrych ar y polisïau a'r gweithdrefnau a oedd ar waith, a chanfuom eu bod yn adlewyrchu arfer gwirioneddol. Roedd y polisïau a'r gweithdrefnau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd, yn cynnwys dyddiadau adolygu a/neu yn cael eu rheoli fesul fersiwn, ac yn cynnwys llofnodion y staff, a oedd yn dangos eu bod wedi'u darllen a'u deall.

Canfuom fod y practis yn arddangos ei fanylion cyswllt brys a'i oriau agor ar fynedfa'r adeilad.  Roedd enwau a chymwysterau'r deintyddion hefyd yn cael eu harddangos yn glir.

# 4. Beth nesaf?

Mae'r gwelliannau a'r pryderon uniongyrchol rydym wedi eu nodi yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith gan ddweud wrthym am y camau brys mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# 5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Mae arolygiadau deintyddol fel arfer yn rhai lle rhoddir rhybudd. Mae practisau deintyddol yn derbyn hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn fel y bydd trefniadau yn gallu cael eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer, a bod yr arolygiad yn peri cyn lleied o amhariad â phosibl i gleifion.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefelau gweithredol a strategol.

Rydym yn gwirio sut mae practisau deintyddol yn bodloni Safonau Iechyd a Gofal 2015 Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011. Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis 'Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Mae'r arolygiadau hyn yn cofnodi cipolwg o'r safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir gwybodaeth bellach am sut mae AGIC yn arolygu practisau deintyddol a'r GIG ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon dybryd a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut y cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Gwnaethom sylwi fod rhai offer deintyddol yn cynnwys tâp / band lliw ac felly efallai nad yw'r offer wedi cael eu dadheintio'n llwyr. | Roedd hyn yn golygu bod perygl o groes-heintio. | Gwnaethom leisio'r pryder hwn gyda'r practis yn ystod yr arolygiad a gofyn iddo gael ei unioni ar unwaith. | Rhoddodd y practis gynlluniau ar waith ar unwaith i dynnu'r tapiau a bandiau lliw yn ystod ein harolygiad. |
| Gwnaethom sylwi bod yr offer yn cael eu cludo rhwng ystafelloedd triniaeth a'r ystafell ddadheintio mewn bagiau. | Roedd hyn yn golygu nad oedd offer yn cael eu diogelu'n llawn mewn cynwysyddion caeedig. | Gwnaethom dynnu sylw'r practis at hyn ac fe drefnwyd i gynwysyddion caeedig gael eu prynu ar unwaith. | Cafodd y cynwysyddion eu harchebu yn syth ar ddiwrnod ein harolygiad er mwyn cyrraedd y diwrnod canlynol. |

# Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth: Marquess Dental

## Dyddiad yr arolygiad: 18 Gorffennaf 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y maent yn eu cymryd.

| Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw faterion a oedd yn gofyn am sicrwydd ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn. | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth:

## Enw (llythrennau bras):

## Swydd:

## Dyddiad:

## Atodiad C – Cynllun gwella

## Gwasanaeth: Marquess Dental

## Dyddiad yr arolygiad: 18 Gorffennaf 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y maent yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd profiad y claf** | | | | |
| Dylai'r practis gyhoeddi / arddangos dadansoddiad o adborth cleifion. | 6.3 Gwrando a Dysgu o adborth | Rydym yn adolygu opsiynau – hysbysfwrdd neu dudalen ar y we neu gyfuniad o'r ddau | G Buse | Chwe mis |
| **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol** | | | | |
| Dylid sicrhau bod yr holl staff yn cael hyfforddiant legionella. | 2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dadheintio | I'w gynnal yn y cyfarfod tîm nesaf | G Buse | Dau fis |
| Dylid sicrhau bod staff yn diweddaru eu hyfforddiant amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed. | 2.7 Diogelu plant a diogelu oedolion mewn perygl | I'w gwblhau cyn gynted â phosibl – neu ble y bo'n berthnasol pan fydd staff yn dychwelyd i'r gwaith | G Buse | Un mis |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Dylid anfon manylion y dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd sydd wedi'i hadnewyddu ar gyfer un o'r deintyddion at AGIC. | | Derbyniwyd y dystysgrif eisoes. | G Buse | Cwblhawyd |
| Dylid anfon manylion y dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd sydd wedi'i hadnewyddu ar gyfer un o'r hylenyddion at AGIC. | | Ffurflen y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd i gael ei llenwi cyn gynted â phosibl | G Buse | Un mis |
| Dylid sicrhau bod pob deintydd sy'n gweithio yn y practis yn gwbl ymwybodol o'r canllawiau Darparu Iechyd y Geg Gwell a chanllawiau Cymdeithas Periodontol Prydain. | 3.5 Cadw cofnodion | Mae'r ddau ganllaw ar gael i bob deintydd | G Buse | Cwblhawyd |
| Dylid cynnal archwiliad o gofnodion cleifion, yn unigol ac fel practis. | | Mae trefniadau ar waith i gwblhau archwiliad. | G Buse | Chwe mis |
| **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth** | | | | |
| Ddim yn berthnasol | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth**

| | |
|---|---|
| **Enw (llythrennau bras):** | **DR GERAINT BUSE** |
| **Swydd:** | **PRIF DDEINTYDD/CYFARWYDDWR** |
| **Dyddiad:** | **30/8/17** |